
# Am y swydd

## SWYDDOG HAWLIADAU

Fel Swyddog Hawliadau, byddwch yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi gweinyddiaeth ariannol effeithiol gweithgarwch a ariennir drwy grant ar draws Uchelgais Gogledd Cymru. Gan weithio'n agos gyda'r Rheolwr Prosiect Cyllid, byddwch yn helpu i sicrhau bod hawliadau ariannol sy'n ymwneud â grantiau yn cael eu prosesu'n gywir, yn unol â gofynion, ac o fewn yr amserlenni gofynnol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal cofnodion ariannol cadarn, monitro gweithgarwch hawliadau, gwirio dogfennaeth ategol, a helpu i sicrhau bod pob hawliad yn bodloni gofynion cytundebau ariannu grant, gweithdrefnau mewnol a safonau archwilio.

Bydd y rôl hefyd yn cynnwys gweithio gyda noddwyr prosiect a chydweithwyr i ddatrys ymholiadau, monitro cynnydd a chefnogi gweithrediad llyfn prosesau hawlio grantiau. Byddwch yn cyfrannu at gynnal trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol gadarn, gan helpu i sicrhau bod prosiectau a ariennir yn allanol yn cael eu cefnogi'n effeithiol a bod gofynion cyllido yn cael eu bodloni. Mae hwn yn gyfle gwych i rywun sydd â sgiliau gweinyddu ariannol cryf, sylw rhagorol i fanylder, a'r gallu i weithio'n gywir ac ar y cyd mewn amgylchedd prysur ac amrywiol.



# Cyfrifoldebau Penodol i'r Rôl

- Cefnogi'r Rheolwr Prosiect Cyllid gyda monitro cyllidebau prosiectau a neilltuwyd, gan gynnal goruchwyliaeth o berfformiad cyllideb, adnabod amrywiadau ac uchafu materion pan fo angen.
- Derbyn hawliadau ariannol a sicrhau bod yr holl gyflwyniadau wedi'u cwblhau, eu bod yn gywir ac wedi'u derbyn yn unol â'r Cytundeb Cyllid Grant, prosesau hawliadau, y gyllideb gymeradwy a rheolau gweithdrefn cytundeb perthnasol.
- Gwirio tystiolaeth cefnogi hawliadau am gyflawnrwydd, cywirdeb a chydymffurfiaeth, gan godi ymholiadau neu ofyn am eglurhad pan fo angen. Adnabod unrhyw amrywiadau neu anghysondebau ac uchafu materion i'r Rheolwr Prosiect perthnasol pan fo angen.
- Paratoi'r hawliad am daliad a chyflwyno'r Awdurdodiad a Thaliad gan y swyddogion awdurdodedig.
- Cefnogi, cynnal ac adnabod cyfleoedd i wella o'r Broses Hawlio Grant ar gyfer grantiau Uchelgais Gogledd Cymru. Gweithredu fel y cyswllt cyllid allweddol ar gyfer noddwyr prosiect allanol.
- Cynnal system reoli ariannol cadarn (taenlen neu gronfa ddata) i gofnodi'r hawliadau a dderbyniwyd, monitro cynnydd, tracio taliadau a sicrhau cofnodion ariannol cywir. Sicrhau bod y system yn darparu safle cyfredol ar statws hawliadau, llwybr archwilio a chylchoedd talu er dibenion adrodd.
- Cefnogi'r gwaith o baratoi a chyflwyno hawliadau grant amserol a chywir ar gyfer cyllid allanol y mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ei dderbyn, gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion ariannwr a bod tystiolaeth gefnogol lawn yn cael ei chynnal.
- Codi gorchmynion prynu (POs), prosesu anfonebau a chadw cofnodion ariannol cywir yn unol â gweithdrefnau ariannol a chaffael.
- Cefnogi'r Rheolwr Prosiect Ariannol i sicrhau bod yr holl gyllid yn cael ei reoli yn unol â'r rheoliadau ariannol perthnasol, gan gadw cofnodion llawn a chywir er dibenion archwilio.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau gofynnol a rhesymol eraill sy'n gymesur â lefel y rôl i gefnogi cyflawni blaenoriaethau sefydliadol.



